



Dyffryn Clwyd Mission Area

Sunday 2ND May 2021 FIFTH SUNDAY of EASTER

Dyffryn Clwyd Mission Area Office

The office will be closed to visitors for the present time. Please contact me on

Email at admin@dyffrynclwyd.co.uk;
Web address www.Dyffrynclwyd.co.uk;

Prayer for today

Almighty God, through your only-begotten Son Jesus Christ you have overcome death and opened to us the gate of everlasting life: grant that, as by your grace going before us you put into our minds good desires, so by your continual help we may bring them to good effect; through Jesus Christ our risen Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.
Amen.

Prayers for those in particular need: If you know anyone who would like to be included in our weekly prayer list across our churches – please email the administrator by **Thursday lunchtime each week** on admin@dyffrynclwyd.co.uk;

We continue to hold in our prayers, those who are sick or in particular need especially: David; Merion; Tony; Frank; Mari; Casandra; Eirlys; Pat, May; Briony; Terry; Janet; Sylvia; Lesley; Sandra; Faith; Sheila; Andy; Ken; Peter; Ion & Monica; Val; Margaret; Jane; John; Christine; Suzanne; Rosemary Williams; Michael and Rosita; Rowan and family; Colin Edwards; Bert Harrison; Sian Harrison; Zackery Okane; Joy Mount, Nia Edwards. The family of Joanne Cartwright - Lily, Laurence and Elysia. Susan Davies.

For those who have recently departed: Joanne Cartwright, Geoffrey Mount, Capt. Dawn Jamieson (208-Field-Hospital) departed.

Nursing Homes and Care Homes: We continue to pray for all those who live and work in our nursing and residential care homes.

MASKS MUST BE WORN IN CHURCH – IF YOU HAVE A MEDICAL EXEMPTION PLEASE INFORM THE CLERGY.

Service for 2nd May 2021 – Alleluia He is Risen!

Please book a place and join us on Sunday 2nd May 2021: 9.00 am Llanrhydd, Llanarmon; Llanychan; **9.30 am** Cyffylliog; **10.30 am** St Peter's Ruthin & Llanbedr; **11.00 am** Llanfair; **4.00 pm** Llanfwrog and Llanyynys. **Book a place at [Worship Booking – Dyffryn Clwyd](#)**; this link will take you directly to the page. Scroll down and all the services for Sunday will be visible for you to book, please follow the link. If you are unable to book online for whatever reason, please contact the church wardens or the clergy, who will do this for you.

Online services. If you cannot join us in person, you will find the Sunday celebration of Holy Eucharist available live at **10.30 am** www.dyffrynclwyd.co.uk/Live; with daily services available online **Mon-Sat from 10.00 am**.

Church community meetings: Following our Easter Vestry meeting, Fr Huw is proposing to meet with each church community to discuss the development of the Mission Area Plan. The meetings are as follows:- **May 5th** Clocaenog church 7.00 pm; **6th** Cyffylliog church 7.00pm; **10th** Llanfair church 7.00 pm; **11th** Llanarmon church 2.00 pm; **12th** Ruthin Town churches 7.00 pm in Llanfair church; **14th** Llanbedr church 10.00 am, venue Llanbedr village hall with Llanychan 2.00 pm and Llangynhafal 4.00 pm; **29th** Llanyynys church 2.00pm Open Day to be confirmed; Efenechtyd to be confirmed.

13th May – Thursday Ascension Day All are welcome to join us for our Ascension Day celebrations: **10.00 am** Holy Eucharist at St Garmon's Llanarmon yn Ial, followed by a socially distanced breakfast outside. Booking necessary please go to [Worship Booking – Dyffryn Clwyd](#) to book a place. **7.00 pm** Old St Peter's church Llanbedr outdoor Holy Eucharist. **Save the date!**

Readings for Next Sunday 9th May 2021 ~ SIXTH Sunday of Easter

Acts 10.44-48; Psalm 98 1 John 5.1-6 St John 15.9-17

Readings from Acts 8.26-40

Then an angel of the Lord said to Philip, 'Get up and go towards the south to the road that goes down from Jerusalem to Gaza.' (This is a wilderness road.) So he got up and went.

Now there was an Ethiopian eunuch, a court official of the Candace, queen of the Ethiopians, in charge of her entire treasury. He had come to Jerusalem to worship and was returning home; seated in his chariot, he was reading the prophet Isaiah. Then the Spirit said to Philip, 'Go over to this chariot and join it.'

So Philip ran up to it and heard him reading the prophet Isaiah. He asked, 'Do you understand what you are reading?'

He replied, 'How can I, unless someone guides me?' And he invited Philip to get in and sit beside him.

Now the passage of the scripture that he was reading was this: 'Like a sheep he was led to the slaughter, and like a lamb silent before its shearer, so he does not open his mouth. In his humiliation justice was denied him. Who can describe his generation? For his life is taken away from the earth.'

The eunuch asked Philip, 'About whom, may I ask you, does the prophet say this, about himself or about someone else?'

Then Philip began to speak, and starting with this scripture, he proclaimed to him the good news about Jesus.

As they were going along the road, they came to some water; and the eunuch said, 'Look, here is water! What is to prevent me from being baptized?' He commanded the chariot to stop, and both of them, Philip and the eunuch, went down into the water, and Philip baptized him.

When they came up out of the water, the Spirit of the Lord snatched Philip away; the eunuch saw him no more, and went on his way rejoicing. But Philip found himself at Azotus, and as he was passing through the region, he proclaimed the good news to all the towns until he came to Caesarea.

This is the Word of the Lord - **Thanks be to God.**

Psalm 22. 25-31

25 From you comes my praise in the great congregation; I will perform my vows in the presence of those that fear you.

26 The poor shall eat and be satisfied; those who seek the Lord shall praise him; their hearts shall live for ever.

27 All the ends of the earth shall remember and turn to the Lord, and all the families of the nations shall bow before him.

28 For the kingdom is the Lord's and he rules over the nations.

29 How can those who sleep in the earth bow down in worship, or those who go down to the dust kneel before him?

30 He has saved my life for himself; my descendants shall serve him; this shall be told of the Lord for generations to come.

31 They shall come and make known his salvation, to a people yet unborn, declaring that he, the Lord, has done it.

A reading from 1 John 4.7-21

Beloved, let us love one another, because love is from God; everyone who loves is born of God and knows God.

Whoever does not love does not know God, for God is love. God's love was revealed among us in this way: God sent his only Son into the world so that we might live through him. In this is love, not that we loved God but that he loved us and sent his Son to be the atoning sacrifice for our sins. Beloved, since God loved us so much, we also ought to love one another. No one has ever seen God; if we love one another, God lives in us, and his love is perfected in us.

By this we know that we abide in him and he in us, because he has given us of his Spirit. And we have seen and do testify that the Father has sent his Son as the Saviour of the world. God abides in those who confess that Jesus is the Son of God, and they abide in God. So we have known and believe the love that God has for us.

God is love, and those who abide in love abide in God, and God abides in them. Love has been perfected among us in this: that we may have boldness on the day of judgement, because as he is, so are we in this world. There is no fear in love, but perfect love casts out fear; for fear has to do with punishment, and whoever fears has not reached perfection in love.

We love because he first loved us. Those who say, 'I love God', and hate their brothers or sisters, are liars; for those who do not love a brother or sister whom they have seen, cannot love God whom they have not seen. The commandment we have from him is this: those who love God must love their brothers and sisters also.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

The Gospel according to St John 15.1-8

'I am the true vine, and my Father is the vine-grower. He removes every branch in me that bears no fruit. Every branch that bears fruit he prunes to make it bear more fruit. You have already been cleansed by the word that I have spoken to you. Abide in me as I abide in you. Just as the branch cannot bear fruit by itself unless it abides in the vine, neither can you unless you abide in me.

'I am the vine, you are the branches. Those who abide in me and I in them bear much fruit, because apart from me you can do nothing. Whoever does not abide in me is thrown away like a branch and withers; such branches are gathered, thrown into the fire, and burned. If you abide in me, and my words abide in you, ask for whatever you wish, and it will be done for you. My Father is glorified by this, that you bear much fruit and become my disciples.'

Post Communion prayer

Eternal God, your Son Jesus Christ is the way, the truth, and the life: grant us to walk in his way, to rejoice in his truth, and to share his risen life; who is alive and reigns, now and for ever.
Amen

Dydd Sul 2^{il} Mai 2021
Pumed Sul y Pasg

Colect am y Dydd Hollalluog Dduw, a orchfygaist angau trwy dy uniganedig Fab ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol: bydded i'th ras ein rhagflaenu a dyro ddeisiyfiadau da yn ein meddyliau fel y gallwn, trwy dy gymorth parhaus di, eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Darlleniad o Actau 8.26-40

Llefarodd angel yr Arglwydd wrth Philip: "Cod," meddai, "a chymer daith tua'r de, i'r ffordd sy'n mynd i lawr o Jerwsalem i Gasa." Ffordd anial yw hon. Cododd yntau ac aeth.

A dyma wŵr o Ethiop, eunuch, swyddog uchel i Candace brenhines yr Ethiopiaid, ac yn ben ar ei holl drysor hi; yr oedd hwn wedi dod i Jerwsalem i addoli, ac yr oedd yn dychwelyd ac yn eistedd yn ei gerbyd, yn darllen y proffwyd Eseia. Dywedodd yr Ysbryd wrth Philip, "Dos a glŷn wrth y cerbyd yna."

Rhedodd Philip ato a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, "A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?"

Meddai yntau, "Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?" Gwahoddodd Philip i ddod i fyny ato ac eistedd gydag ef.

A hon oedd yr adran o'r Ysgrythur yr oedd yn ei darllen: "Arweiniwyd ef fel dafad i'r lladdfa, ac fel y bydd oen yn ddistaw yn llaw ei gneifiwr, felly nid yw'n agor ei enau. Yn ei ddarostyngiad gomeddwyd iddo farn. Pwy all draethu am ei ddisgynyddion? Oherwydd cymerir ei fywyd oddi ar y ddaear."

Meddai'r eunuch wrth Philip, "Dywed i mi, am bwy y mae'r proffwyd yn dweud hyn? Ai amdano'i hun, ai am rywun arall?"

Yna agorodd Philip ei enau, a chan ddechrau o'r rhan hon o'r Ysgrythur traethodd y newydd da am Iesu iddo.

Fel yr oeddent yn mynd rhagddynt ar eu ffordd, daethant at ryw ddŵr, ac ebe'r eunuch, "Dyma ddŵr; beth sy'n rhwystro imi gael fy medyddio?"

[Dywedodd Philip, "Os wyt yn credu â'th holl galon, fe elli."

Atebodd yntau, "Yr wyf yn credu mai Mab Duw yw Iesu Grist."] A gorchmynnodd i'r cerbyd sefyll, ac aethant i lawr ill dau i'r dŵr, Philip a'r eunuch, ac fe'i bedyddiodd ef.

Pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan Ysbryd yr Arglwydd; ni welodd yr eunuch mohono mwyach, ac aeth ymlaen ar ei ffordd yn llawen. Cafodd Philip ei hun yn Asotus, ac aeth o gwmpas dan gyhoeddi'r newydd da yn yr holl ddinasoedd nes iddo ddod i Gesarea.

Dyma air yr Arglwydd **Diolch a fo i Dduw.**

Salm 22. 25-31

25 Oddi wrthyt ti y daw fy mawl yn y gynulleidfa fawr, a thalaf fy addunedau yng ngŵydd y rhai sy'n ei ofni.

26 **Bydd yr anghenus yn bwyta, ac yn cael digon, a'r rhai sy'n ceisio'r Arglwydd yn ei foli. Bydded i'w calonnau fyw byth!**

27 Bydd holl gyrrau'r ddaear yn cofio ac yn dychwelyd at yr Arglwydd, a holl dylwythau'r cenhedloedd yn ymgrymu o'i flaen.

28 **Oherwydd i'r Arglwydd y perthyn brenhiniaeth, ac ef sy'n llywodraethu dros y cenhedloedd.**

29 Sut y gall y rhai sy'n cysgu yn y ddaear blygu iddo ef, a'r rhai sy'n disgyn i'r llwch ymgrymu o'i flaen?

30 **Ond byddaf fi fyw iddo ef, a bydd fy mhlant yn ei wasanaethu; dywedir am yr Arglwydd wrth genedlaethau i ddod,**

31 a chyhoeddi ei gyfiawnder wrth bobl heb eu geni, mai ef a fu'n gweithredu.

Darlleniad o 1 Ioan 4.7-21

Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw.

Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw. Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau.

Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd. Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; os ydym yn caru ein gilydd, y mae Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni. Dyma sut yr ydym yn gwybod ein bod yn aros ynddo ef, ac ef ynom ninnau: am iddo ef roi inni o'i Ysbryd. Yr ydym ni wedi gweld, ac yr ydym yn tystiolaethu bod y Tad wedi anfon ei Fab yn Waredwr y byd. Pwy bynnag sy'n cyffesu mai Iesu yw Mab Duw, y mae Duw yn aros ynddo, ac yntau yn Nuw. Felly yr ydym ni wedi dod i adnabod a chredu'r cariad sydd gan Dduw tuag atom.

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau. Yn hyn y mae cariad wedi cael ei berffeithio ynom: bod gennym hyder yn Nydd y Farn, oherwydd fel y mae ef, felly yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn. Nid oes ofn mewn cariad, ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn; y mae a wnelo ofn â chosb, ac nid yw'r sawl sy'n ofni wedi ei berffeithio mewn cariad.

Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Os dywed rhywun, "Rwy'n caru Duw", ac yntau'n casáu ei gydaelod, y mae'n gelwyddog; oherwydd ni all neb nad yw'n caru cydaelod y mae wedi ei weld, garu Duw nad yw wedi ei weld. A dyma'r gorchymyn sydd gennym oddi wrtho ef: bod i'r sawl sy'n caru Duw garu ei gydaelod hefyd.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan 15: 1-8

Gogoniant i ti, O Arglwydd

"Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr. Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth, er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Yr ydych chi eisoes yn lân trwy'r gair yr wyf wedi ei lefaru wrthych. Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chi aros ynof fi.

"Myfi yw'r winwydden; chi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim. Os na fydd rhywun yn aros ynof fi, caiff ei daflu i ffwrdd fel y gangen ddiffwrwyth, ac fe wywa; dyma'r canghennau a gesglir, i'w taflu i'r tân a'u llosgi. Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau ynoch chi, gofynnwch am beth a fyynnwch, ac fe'i rhoddir ichwi. Dyma sut y gogoneddir fy Nhad: trwy i chi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi."

Dyma Efengyl yr Arglwydd. **Moliant i ti, O Grist**

Gweddi ar ôl y Cymun Dragwyddol Dduw, dy Fab Iesu Grist yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, caniatâ i ni gerdded yn ei ffordd, i lawenhau yn ei wirionedd a chyfranogi o'i fywyd atgyfodedig; sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**